ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission

# Sut mae'r broses o gynllunio cwricwlwm ac asesu i fod i weithio?

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**GOFYN:** Pam mae'r dysgu hwn yn bwysig? Pam mae'n bwysig i'ch plant **CHI**?

**CYNLLUNIO:** Sut mae'r dysgu hwn yn cefnogi eich dysgwyr **CHI** i wneud cynnydd?

**ADDYSGU:** Sut mae dysgu ac addysgu yn cefnogi'r dysgu hwn?

**MYFYRIO:** Sut mae eich dysgwyr **CHI** yn gwneud cynnydd dros amser?

## ARWAIN CYNLLUNIO YSGOL GYFAN

### GOFYN

1. Ystyried gwerthoedd eich ysgol a'r cyd-destun lleol a sut maen nhw'n llywio'r dysgu.
2. Pa wersi ydych chi wedi'u dysgu o werthuso eich cwricwlwm, y dysgu a'r addysgu hyd yn hyn?
3. Sicrhau eich bod yn cynnal deialog broffesiynol barhaus ynghylch pam mae dysgu'n bwysig, gan fireinio'r diben dysgu ym mhob ystafell ddosbarth ac amgylchedd dysgu.
4. Ystyried pa ddysgu all helpu i ddatblygu cymhelliant ac annibyniaeth dysgwyr i ddod yn ddysgwyr fwyfwy effeithiol.

### CYNLLUNIO

1. Hwyluso cydweithio oddi mewn ac ar draws timau i sicrhau bod profiad y dysgwr yn gydlynus: sut ydyn ni'n sicrhau cynnydd cynaliadwy dros amser? Sut gall gwahanol arbenigeddau gyfrannu at ddysgu?
2. Ymgysylltu ag ystod eang o randdeiliaid a'r cymunedau o amgylch eich lleoliad i ddeall sut y gallant gyfrannu at ddysgu a sut mae eich cwricwlwm yn cefnogi dysgwyr i ddeall y byd a'u lle ynddo.
3. Amlinellu ystod eang o ddysgu a chyfleoedd i alluogi dysgwyr i wneud cynnydd fel y disgrifir yn yr egwyddorion cynnydd. Cefnogi a dilysu cynllunio i sicrhau bod dysgu yn heriol, yn eang ac yn ddwfn.
4. Bod yn glir ynghylch y cynnydd a'r datblygiad disgwyliedig gan y dysgwyr a sicrhau bod hyn yn cael ei ddeall yn briodol gan yr oedolion sy'n galluogi (athrawon dosbarth, staff cymorth, rhieni a gofalwyr) a'r dysgwyr.

### ADDYSGU

1. Hwyluso trafodaeth a defnyddio ystod o addysgeg briodol i sicrhau bod dysgu yn ddiddorol ac yn cefnogi dysgwyr i ddeall y dysgu a nodwyd (gwybodaeth, sgiliau a phrofiadau).
2. Sicrhau bod llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol yn cael eu cymhwyso a'u datblygu'n ddilys ar draws y dysgu a'r addysgu, gan gefnogi'r sgiliau sy'n hanfodol i'r pedwar diben.
3. Sicrhau bod cyfleoedd asesu yn defnyddio ystod eang o ddulliau a gwybodaeth, gan ddarparu cyfleoedd i sylwi ar y dysgu a arsylwyd, ei ddadansoddi ac ymateb iddo.
4. I ba raddau mae trefniadau cynllunio asesu'r ysgol yn cefnogi dysgwyr unigol yn barhaus, o ddydd i ddydd?

### MYFYRIO

1. Monitro cynnydd dysgwyr i nodi tueddiadau a lle mae angen cefnogaeth ac ymestyn penodol.
2. I ba raddau mae gwerthusiad yr ysgol o gynnydd dysgwyr unigol a grwpiau dros amser yn tynnu ar ystod eang o wybodaeth asesu a barn broffesiynol?
3. Gwerthuso'r dysgu i sicrhau ei fod yn briodol yn ddatblygiadol ac yn addysgegol ac yn heriol.
4. Gwerthuso sut mae'r dysgu a'r cwricwlwm sydd wedi'i gynllunio gennych yn cefnogi cynnydd dysgwyr, gan alluogi dysgwyr i wneud cynnydd yn y ffyrdd a ddisgrifir yn yr egwyddorion cynnydd.

## CYMORTH AR GYFER YMARFERWYR YN YR YSTAFELL DDOSBARTH

### GOFYN

1. Beth yw anghenion, cyd-destunau a diddordebau'r dysgwyr? Beth mae'r dysgwyr yn ei wybod? Beth maen nhw eisoes wedi'i brofi? Sut gall dysgu ymateb i'r rhain ac ehangu eu dealltwriaeth o'r byd?
2. Dewis cwestiynau hanfodol posibl/cyd-destunau ar gyfer dysgu/gwybodaeth, sgiliau a phrofiadau i gefnogi'r ddealltwriaeth hon.
3. Ymgysylltu â'r diben dysgu cyfredol ac arfaethedig - pam ei fod yn werth chweil? Pam mae'n bwysig i'ch dysgwyr? Sut mae'n eu herio nhw?
4. Sut gallai'r dysgu arfaethedig hwn helpu'r dysgwyr i ddatblygu tuag at y galluoedd a'r ymagweddau sy'n sail i'r pedwar diben?
5. Nodi pa wybodaeth, sgiliau a phrofiadau fyddai'n cefnogi'r diben dysgu - sut mae'n cefnogi'r ddealltwriaeth gysyniadol yn y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig?

### CYNLLUNIO

1. Parhau i fireinio'r dysgu, gan ofyn pam ei fod yn bwysig.
2. Ystyried pa wybodaeth, sgiliau a/neu brofiadau eraill a allai alluogi ehangder a dyfnder ar gyfer cynnydd y dysgwyr.
3. Egluro bwriadau'r dysgu gan gyfeirio at gynnydd y plentyn cyfan wrth gefnogi datblygiad tuag at y pedwar diben.
4. Nodi sut mae'r dysgu hwn yn galluogi cynnydd y dysgwyr: Sut mae'n cefnogi cynnydd tuag at y pedwar diben? Sut mae'n cefnogi cynnydd tuag at yr egwyddorion cynnydd a'r datganiadau dysgu?
5. Defnyddio'r disgrifiadau dysgu i ddeall her, ehangder a dyfnder y dysgu arfaethedig.

### ADDYSGU

1. Cynllunio profiadau dysgu sy'n dod â'r dysgu a nodwyd yn fyw. Ystyriwch sut mae profiadau'n helpu dysgwyr i ddatblygu'r wybodaeth, y sgiliau a'r profiadau a nodwyd. Ystyriwch pa addysgeg sydd fwyaf priodol ar gyfer hyn. Amrywiaeth o oedolion sy'n galluogi dysgu.
2. Ystyried sut y gall amrywiaeth o oedolion sy'n galluogi ac amgylcheddau effeithiol helpu'r dysgwyr i ddeall a datblygu orau yn y dysgu a nodwyd.
3. Mewn amgylchedd cynhwysol, dylunio ystod o gyfleoedd addysgu ac asesu, gan dynnu ar ystod o addysgeg briodol sy'n gydnaws â chyfnod datblygu'r dysgwr.
4. Ystyried a oes cyfleoedd dilys i gymhwyso a datblygu sgiliau, gan gynnwys llythrennedd, rhifedd, cymhwysedd digidol a sgiliau sy'n hanfodol i'r pedwar diben yn y dysgu.
5. Creu ystod eang o gyfleoedd ar gyfer asesu sy'n asesu dealltwriaeth o'r dysgu, yr wybodaeth, y sgiliau a'r profiadau a nodwyd. Ystyriwch sut gall hyn gefnogi datblygiad o ran y pedwar diben drwy'r egwyddorion cynnydd.

### MYFYRIO

1. Ystyried ystod eang o wybodaeth asesu am ddysgwyr fel dangosyddion o gynnydd tebygol.
2. Gwerthuso cynnydd dysgwyr. Sut mae'r dysgwyr yn datblygu fel y disgrifir yn yr egwyddorion cynnydd? Sut mae'r dysgwyr yn dangos yn ddilys y galluoedd a'r ymagweddau yn y pedwar diben? Sut maen nhw'n gwneud cynnydd yn eu gwybodaeth a'u sgiliau mewn perthynas â disgwyliadau'r cwricwlwm?
3. Ystyried y ffordd orau o gyfleu'r gwerthusiad hwn i weithwyr proffesiynol eraill a chyda rhieni a gofalwyr.
4. Myfyrio ar sut y gall y dysgwyr ddangos a deall eu cynnydd drwy ddatblygu eu portffolio dysgu eu hunain.
5. Myfyrio ar effaith dulliau addysgu er mwyn nodi cryfderau a meysydd i'w datblygu i lywio gwaith cynllunio cwricwlwm yn y dyfodol.

## CYSYLLTIADAU AG ELFENNAU PERTHNASOL O DDEALLTWRIAETH FFRAMWAITH CWRICWLWM I GYMRU

### GOFYN

- Y Pedwar diben
- Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig
- Sgiliau trawsgwricwlaidd a sgiliau hanfodol
- Cynllunio eich cwricwlwm
- Parhau â'r daith

### CYNLLUNIO

- Y Pedwar diben/Egwyddorion cynnydd
- Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig
- Defnyddio disgrifiadau o'r dysgu i ddeall y lefel briodol o her, ehangder, a dyfnder
- Cynllunio adrannau eich cwricwlwm ar sail y meysydd dysgu a phrofiad
- Themâu trawsbynciol

### ADDYSGU

- Y Pedwar diben
- Egwyddorion cynnydd
- Sgiliau trawsgwricwlaidd
- Canllawiau asesu

### MYFYRIO

- Y Pedwar diben/Egwyddorion cynnydd
- Canllawiau asesu
- Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig
- Defnyddio disgrifiadau o ddysgu i gefnogi dealltwriaeth o gynnydd dysgwyr dros amser
- Parhau â'r daith
- Canllawiau gwella ysgol